# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Trafnidiaeth Gyhoeddus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 25 Medi 2023 |
| **Lleoliad:** | Microsoft Teams |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Carolyn Thomas AS<br>Luke Fletcher AS<br>Aaron Hill<br>Adam Keen<br>Adam Marshall<br>Barclay Davies<br>Ioan Bellin<br>Bob Saxby<br>David Beer<br>Dewi John<br>Danny Grehan<br>Jane Harris<br>Andrew Jenkins<br>Hannah McCarthy<br>Jo Foxall<br>Kaarina Ruta<br>Lewis Brencher<br>Marin Murphy<br>Morgan Stevens<br>Rob Pymm<br>Ryland Doyle | |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | |
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Diweddariad a ddarparwyd gan ysgrifenyddiaeth, Aaron Hill, CPT Cymru

- Ers cyfarfod diwethaf y GTB, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r gronfa bontio bysiau. Bydd y £46m hwn yn cynnal y mwyafrif helaeth o wasanaethau tan fis Mawrth 2024.
- Dros yr haf, mae gweithredwyr wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu a diogelu gwasanaethau. Mae hyn wedi gweld nifer o addasiadau i wasanaethau, gan gynnwys nifer fach o wasanaethau yn cael eu canslo.
- Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchiad o batrymau teithio sy'n newid, a'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael tan ddiwedd y flwyddyn, a bydd cyfnod o newidiadau i wasanaethau ledled y gronfa bontio bysiau ac mae gweithredwyr ac awdurdodau yn deall ac yn ymateb i'r patrymau sydd wedi ymddangos yn ystod y pandemig.
- Mae nifer o heriau polisi ychwanegol yn parhau, gan gynnwys cyflwyno 20 mya sydd wedi creu rhai heriau o ran dibynadwyedd a phrydlondeb yn y dyddiau cynnar, ond rydym yn aros am ragor o ddata i ddeall yr effaith yn well.
- Y tu hwnt i fis Mawrth, mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr, a'r gwir amdani yw y bydd llawer o'r gwasanaethau y byddent wedi eu bygwth ym mis Gorffennaf, wrth i gyllid y cynllun argyfwng bws ddod i ben, unwaith eto mewn perygl. Amcangyfrifir y gallai hyn gynnwys hyd at 25% o'r gwasanaethau o hyd.
- Mae'r diwydiant bellach yn canolbwyntio ar dwf, ac mae nifer o ardaloedd wedi gweld niferoedd cryf o deithwyr drwy gydol yr haf; mae marchnadoedd hamdden a thwristiaeth bellach yn perfformio'n well nag oeddent cyn y pandemig mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae defnydd o ran consesiynau yn parhau i fod

ymhell islaw'r ffigurau cyn y pandemig, er bod rhai gweithredwyr yn nodi twf o 5-10% yn y farchnad hon yn ystod y 12 mis diwethaf.

- Rydym yn gweithio ochr yn ochr â Trafnidiaeth Cymru ar ymgyrch farchnata genedlaethol a fydd yn lansio yn ystod yr wythnosau nesaf i hyrwyddo'r defnydd o fysiau ledled y wlad. Bydd hyn yn dilyn ymlaen o Fis Dal y Bws, a gydlynir gan Bus Users UK, sydd â gweithredwyr allan yn y gymuned yn siarad â theithwyr a hyrwyddo gwasanaethau.
- Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau trosglwyddiad esmwyth y tu hwnt i fis Mawrth, ond mae cyllid yn parhau i fod yn her, ac rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus y grŵp i godi materion yn ymwneud â gwasanaethau a dadlau'r achos dros fuddsoddiad ychwanegol.